Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl384

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Estyniad i arian grant BRAKE**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:**

**Crynodeb Gweithredol:**

Ymhellach i gofnod penderfyniad DLl318, mae'r arian grant a wobrwywyd yn 2024/25 wedi'i estyn i 13 Mehefin 2025 er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth i deuluoedd mewn galar.

Mae Eiriolwr Dioddefwyr Ffyrdd Annibynnol Dyfed-Powys wedi bod yn weithredol ers Ebrill 2023 ac mae nawr yn dal llwyth achos o deuluoedd yn Nyfed-Powys sydd wedi dioddef profedigaeth yn dilyn gwrthdrawiad traffig y ffyrdd.

Mae'r swydd hon yn chwarae rhan hollbwysig o ran darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i gynorthwyo teuluoedd i lywio canlyniad digwyddiadau trawmatig.

O Fehefin 2025, bydd y gweithgarwch hwn yn parhau mewn partneriaeth â SCHTh De Cymru drwy gytundeb penodol a wobrwywyd i Gymorth i Ddioddefwyr – gweler DLl366.

**Argymhelliad:**
Rhoi cyllid ychwanegol o £9,018.05 o'r un ffynhonnell â'r gyllideb wreiddiol ar gyfer y grant hwn – cronfa Ailhyfforddi Gyrwyr.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 02/06/2025**